GWASANAETHAU YCHWANEGOL
AR GYFER CWSMERIAID OEDRANNUS AC ANABL, CWSMERIAID GYDA CHYFLWR MEDDYGOL A CHWSMERIAID GYDAG ANGHENION ARBENNIG

Mae Dŵr Dyffryn Dyfrdwy yn ymrwymedig i ddarparu safonnau gwasanaeth ardderchog i'n holl gwsmeriaid. Rydym yn deall bod angen cymorth pellach ar rhai cwsmeriaid gyda'r gwasanaethau rydym yn eu darparu oherwydd eu bod yn anabl, yn hyn, dost neu ac anawsterau dysgu. Mae'r daflen yma yn esbonio'r ystod o wasanaethau ychwanegol am ddim rydym yn medru darparu a sut i gofrestru ar gyfer y gwasanaethau sydd angen arnoch.

Darllen a Deall Eich Bil

Os rydych yn profi anhawster gyda'ch golwg gallwn ddarparu copi o'ch bil dŵr mewn print mwy, breil neu ar gasét sain. Gallwn hefyd ddanfon cynrychiolydd o'r Cwmni i'ch cartref i drafod y bil gyda chi.

Os oes yn rhaid i chi fynd i'r ysbyty neu yn debygol o fod i ffwrdd o'ch tŷ am gyfnod o amser neu os rydych yn cael anhawster deall eich bil, gallwn dderbyn enw a chyfeiriad perthynas neu ffrind i ddanfon eich bil atyn nhw. Gallent nhw wedyn eich atgoffa i dalu'r bil, esbonio'r manylion a threfnu'r taliadau i chi. Mae'n rhaid i'ch perthynas neu ffrind gytuno i wneud hyn cyn i chi rhoi ei enw i ni.

Os nad oes gennych berthynas neu ffrind a hoffech enwebu fe allwn ofyn i'r Gwasanaethau Cymdeithasol i weithredu ar eich rhan.

Tariff Grŵp Bregus

Rydym yn cynnig tariff grŵp bregus a allai ostwng costau i'r cwsmer ar gyflenwad dŵr mesuredig sy'n dioddef o'r amodau iechyd canlynol:

- Methiant arennol yn gofyn am ddialysis cartref
- Stoma abdomenol yn gofyn am driniaeth gartref
- Afiechyd croen diferol ('Weeping skin Disease')
- Afiechyd croen (ecsema, soriasis, briwiau chwyddedig)
- Anymataliaeth
- Afiechyd Chrohn's
- Colitis briwiol
- Unrhyw gyflwr arall yn dilyn defnydd dŵr ychwanegol arwyddocaol

Am fwy o wybodaeth am y Tariff Grŵp Bregus, cysylltwch â'n Adran Gwasanaethau

Cwsmer ar 01978 833200.

Ailosod Mesuryddion Dŵr

Os rydych yn cael anhawster i ddarllen neu wirio'r mesurydd fe allwn ei symud i leoliad mwy cyfleus. Mi fyddwn yn cynnal arolwg ac yn eich hysbysu o'r gost sy'n glwm a hyn. Os rydych wedi eich cofrestru yn gorfforol anabl efallai gallwn gynnal y gwaith am ddim.

Os rydych ar fin cael mesurydd wedi ei osod gwiriwch fod y lleoliad etholedig yn gyraeddadwy i chi cyn y gosodiad. Mi fydd hyn yn sicrhau na fydd yn rhaid ail-osod y mesurydd ar ddyddiad hwyrach ar gost posib i chi.

Os nad yw hi'n ymarferol i ail-osod mesurydd ac os ydych yn gofrestredig yn gorfforol anabl fe allwn gynnig darlleniad mesurydd ychwanegol bob blwyddyn ar gais. Cwblhewch y ffurflen gais sydd yn glwm a'i ddychwelyd i ni.

Beth sy'n digwydd os yw eich Cyflenwad yn Cael ei Droi I Ffwrdd

Weithiau mi fydd yn rhaid i ni droi'r cyflenwad dŵr i ffwrdd i gynnal cyweiriadau pwysig. Mi fyddwn yn eich hysbysu cyn bod hyn yn digwydd wrth ddanfon carden i chi.

Ambell waith gall eich cyflenwad droi bant heb rybudd cynt am resymau na allwn reoli. Mi fyddwn bryd hynny yn gyrru o gwmpas eich ardal gydag uchelseinydd. Os rydych yn credu y byddwch yn cael anhawster clywed neges ar yr uchel seinydd yna fe allwn drefnu i gynrychiolydd o'r Cwmni i gysylltu â chi drwy alwad ffôn neu garden. Cysylltwch â ni ar 01978 833200 i gofrestru.

Cwsmeriaid Gyda Chyflwr Meddygol

Rydym yn ymwybodol bod rhai o'n cwsmeriaid methu mynd heb ddŵr. Mi fyddai hyn yn cynnwys cwsmeriaid ar ddialysis cartref neu gwsmeriaid sydd angen cymryd meddyginiaethau cyson. Os yw hyn yn gymwys i chi yna mi fyddwn yn trefnu dosbarthiad argyfwng o ddŵr potel i chi yn y digwyddiad o amhariadau cyflenwad. Cysylltwch nawr ar gyfer cofrestru i'r gwasanaeth yma wrth gysylltu gyda'r Ystafell Reoli a'r 01978 846946.

Cynllun Cyfrinair

Rydym yn gwybod fod yna rhai pobl sy'n dweud eu bod yn gweithio i ni dim ond er mwyn myned eich cartref. Dyna pam, mewn ychwanegiad i gario cardiau adnabod, rydym yn medru trefnu i'n gweithwyr i ddefnyddio cyfrinair pan eich bod yn eich ymweld. I gofrestru, cysylltwch â'n tîm Gwasanaeth Cwsmeriaid ar 01978 833200 i rhoi manylion am eich cyfrinair dewisedig. Mi fyddwn yn cadw manylion ohono ar ein system a bydd ein staff yn dyfynnu'r cyfrinair pan eu bod yn galw yn eich cartref.

Adnabyddiaeth

Yn Medi 2005 roeddwn wedi ymaelodi gyda'r Braslun Galw Oer Rhyngwladol mewn cysylltair gyda Safonau Masnach Wrecsam a Heddlu Gogledd Cymru. Mae hyn yn golygu lle bynnag yn bosib mi fyddwn yn gwneud apwyntiad gyda chi cyn ymweld â'ch tŷ. Lle mae gwneud apwyntiad ddim yn bosib, mae pob cynrychiolydd i'r Cwmni yn cario cardiau adnabod yn cynnwys ei llun, ac meant yn disgwyl i chi i wirio eu hunaniaeth cyn eu gadael i mewn i'ch cartref. Dylech byth adael rhywun i mewn i'ch cartref heb wirio eu cardiau adnabod yn gyntaf. Os oes gennych unrhyw amheuaeth cysylltwch â'n Ystafell Reoli ar 01978 846946.

Cofiwch:

- Bachwch eich cadwyn diogelwch cyn agor y drws i rhywun
- Gwiriwch eu carden adnabod **cyn eu gadael i mewn i'ch cartref**
- Os nad ydynt yn medru dangos i chi eu carden adnabod **peidiwch â'i gadael i mewn i'ch cartref**
- Os rydych wedi cofrestru eich cyfrinair a'i bod nhw methu ei roi i chi **cadwch nhw allan**
- Os mewn amheuaeth **CADWCH NHW ALLAN** a chysylltwch â ni ar 01978 846946

Ymweliadau Cartref

Os rydych yn gaeth i'r tŷ fe allwn ddarparu ymweliad cartref i'ch cynghori ar ddulliau o dalu neu am y gwasanaethau sydd ar gael i chi.

Effeithlonrwydd Dŵr

Mae cwsmeriaid ar gyflenwad mesuredig yn medru lleihau ei biliau dŵr a charthffosiaeth gan ddileu gwastraff dŵr. Mae'r Cwmni yn cynnig cyngor ar sut i arbed dŵr ac yn medru cynnal archwiliad am ddim o'ch defnydd chi o'r dŵr. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â ni ar 01978 846946.

Sut i Gofrestru

I gofrestru ar gyfer unrhyw wasanaeth sy'n cael ei ddisgrifio yn y daflen yma cwblhewch y ffurflen gais sy'n glwm a'i ddychwelyd i'r cyfeiriad RHADBOST (nid oes angen stamp) sydd fel y canlynol

Dŵr Dyffryn Dyfrdwy ccc
RHADBOSTWX60
Packsaddle
Rhostyllen
Wrecsam
LL14 4EH

Os nad ydych yn medru cwblhau'r ffurflen gais ar ben eich hun a bod neb gennych i'ch cynorthwyo yna cysylltwch â ni ar 01978 833200, Ddydd Llun - Ddydd Gwener 8yb hyd 6yh

Cyfeiriadau a Rhifau Ffôn Defnyddiol:

Cyngor i'r Dall Cymru
Tŷ Shand
3ydd Llawr
20 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0DB

Ffôn (029) 2047 3954

Anabledd Cymru
Llys Ifor
Heol Cilgant
Caerffili
CF83 1XL

Ffôn (029) 2088 7325

Cyngor i'r Byddar Cymru
Tŷ Glenview
Stryd Courthouse
Pontypridd
CF37 1JY

Ffôn (01443) 485687
Minicom (01443) 485686

'Age Concern' (Cymru)
4ydd Llawr
1 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9SD

Ffôn (029) 2037 1566

Cyngor Canolfan Byw Anabledd
Tŷ Redbank
4 Stryd St Chad
Cheetham
Manceinion
M8 8QA

Ffôn (0161) 834 1044